Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

A oes berthynas rhwng strategaethau rheoli ymddygiad a lles disgyblion yn yr ysgol gynradd?

1601032

BA Addysg Gynradd gyda SAC

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ebrill 2019

Datganiad

Mae hyn i dystio mai fy ngwaith i yn llwyr yw’r prosiect ymchwil hwn, ac eithrio lle cyfeirir at waith eraill. Nid yw’r prosiect ymchwil hwn nac unrhyw ran ohono wedi’i gyflwyno ar gyfer unrhyw ddyfarniad arall, heblaw am fel rhan o’r radd BA Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Deallaf y bydd unrhyw waith a ddefnyddiaf heb gyfeirnod addas yn enghraifft o lên-ladrad, a bydd yn arwain at fethu'r modiwl hwn.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y prosiect ymchwil hwn mewn unrhyw ffordd. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i ddarlithwyr y Brifysgol; Dr Sioned Vaughan Hughes a Dr Ceri Lewis am rannu eu harbenigeddau mewn gwahanol feysydd sydd wedi cyfrannu at gwblhau'r prosiect ymchwil hwn. Yn ogystal, dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad diffuant i’r athrawon a’r disgyblion yr ysgol y treuliais fy mhrofiad dewisol ynddo am eu croeso cynnes a'u gwaith caled i sicrhau bod fy mhrofiad yn un gwerth chweil ar gyfer fy mhrosiect ymchwil. Yn olaf, dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad i’r athrawon a’r disgyblion yn yr ysgol yr wyf yn cyflawni fy Mhrofiad Addysgu Proffesiynol olaf ynddo. Mae'r staff wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod fy ymarfer addysgu diwethaf yn ffrwythlon ar gyfer fy nyfodol fel athro ac wedi sicrhau eu bod yn rhannu eu profiadau i wella fy mhrosiect ymchwil yn sylweddol.

Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Nodau'r astudiaeth a rhesymwaith dros ei hysgrifennu

1.2 Cefndir yr astudiaeth

1.3 Damcaniaeth cychwynnol

1.4 Dulliau ymchwil

1.5 Diffiniad o'r cwestiwn

1.6 Diddordeb yn y maes

Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth

2.1 Pwysigrwydd Lles yn yr ysgol gynradd

2.2 Effaith strategaethau rheoli ymddygiad ar les y plentyn

2.3 Rhesymwaith dros ymddygiad gwael yn y dosbarth

2.4 Seicoleg ymddygiad

2.5 Y perthynas rhwng ymddygiad a lles y plentyn

2.6 Arferion cyfredol mewn ysgolion cynradd

Pennod 3: Methodoleg

3.1 Dulliau casglu gwybodaeth a rhesymeg/ cyfiawnhad

3.2 Moeseg

3.3 Cyfyngiadau'r dulliau ymchwil

Pennod 4: Canlyniadau a Thrafodaeth

4.1 Holiaduron a chyfweliadau athrawon

4.2 Cyfweliadau plant

Pennod 5: Casgliad

5.1 Adlewyrchu ar fwriad y prosiect ymchwil

5.2 Prif bwyntiau a godir

5.3 Dysgu proffesiynol

5.4 Awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach

5.5 Diweddglo

Rhestr gyfeiriadau

Atodiadau

1. Cwestiynau cyfweliadau athrawon.
2. Cyfweliadau athrawon.
3. Holiadur.
4. Atebion 2 holiadur.
5. Cyfweliad plentyn A.
6. Cyfweliad plentyn B.
7. Cyfweliad plentyn C.
8. Cyfweliad plentyn Ch.
9. Ffurflen caniatâd athro.
10. Ffurflen caniatâd athro.
11. Ffurflen Foeseg.
12. Adroddiad ysgol ddewisol.

Pennod 1- Cyflwyniad

1.1 Nodau'r astudiaeth a rhesymwaith dros ei hysgrifennu

Yn ystod y prosiect ymchwil hwn, dymunir tynnu sylw at bwysigrwydd lles plant mewn ysgolion a sefydlu ateb ynghylch a oes perthynas rhwng strategaethau rheoli ymddygiad gwael a lles disgyblion yn yr ysgol gynradd. Erbyn diwedd y prosiect ymchwil, dymunir wedi archwilio'r perthynas rhwng ymddygiad a lles y disgybl yn yr ysgol gynradd a chyrraedd casgliad i nodi bod strategaethau rheoli ymddygiad yn angenrheidiol mewn addysg yng Nghymru.

Penderfynwyd archwilio'r testun yma er mwyn codi sylw at bwysigrwydd newydd lles disgyblion o fewn addysg Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain a dod i gasgliad clir o'r berthynas honedig rhwng ymddygiad a lles. O safbwynt personol, credaf fod gan bob plentyn reswm dros gamymddwyn yn yr ystafell ddosbarth ac nad ydynt yn ei wneud am sylw neu am fod ganddynt Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Fy nod yw tynnu sylw at hyn yn ystod y prosiect ymchwil hwn a sicrhau fy mod yn sefydlu dadl gadarnhaol yn erbyn labelu plentyn â ADHD oherwydd nad ydym yn deall yn llawn pam mae plentyn yn camymddwyn. Dymunir hefyd ehangu gwybodaeth yr ymchwilir o amgylch y pwnc, a theimlir felly y bydd y prosiect ymchwil hwn yn galluogi i'w wneud.

1.2 Cefndir yr astudiaeth

Wrth ystyried pwysigrwydd cynyddol lles plant yn y cwricwlwm newydd sydd ar fin cael ei gyflwyno yng Nghymru, mae'n hanfodol ystyried y berthynas arfaethedig rhwng lles disgyblion ac ymddygiad disgyblion er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r addysg orau bosibl.

Er bod lles plant yn amlwg yn bwysig iawn mewn addysg yng Nghymru, mae hefyd yn bwysig ystyried pwysigrwydd ymddygiad gwael mewn ysgolion: y rhesymau dros ymddygiad gwael; sefydlu os mae'r strategaethau ymddygiad yn berthnasol i bob unigolyn; a ydynt yn gweithio neu beidio. Yn sgil hyn, o fewn addysg yng Nghymru ac, yn wir, cymdeithas, mae gennym y tueddiad anffodus o labelu plant â chyflyrau gwahanol cyn ceisio

sefydlu'r broblem wraidd o ran pam mae'r plentyn yn cam-ymddwyn yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, a yw'r plentyn wedi cael digon o gwsg? A oedd y plentyn hwn wedi cael digon i'w fwyta y bore yma? A yw'r plentyn hwn yn cael problemau yn ei gartref? A yw'n cael ei fwlio? A oes gan y plentyn yma lles gwael? Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau y dylem fod yn eu gofyn cyn ceisio labelu plant â phroblemau ymddygiad meddygol fel ADHD.

1.3 Damcaniaeth cychwynnol

Cyn dechrau ar y prosiect ymchwil hwn, y pwynt a wnaed ynghylch sut mae addysg yng Nghymru yn rhy gyflym i labelu plant yn farn gychwynnol yr ymchwilydd yn unig. Wedi hynny, oherwydd y gred gadarn o fewn addysg yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig o'r cysylltiad cryf rhwng ymddygiad a lles plentyn mewn ysgolion, byddai hyn yn ei dro yn dadlau yn erbyn y datganiad bod pob plentyn sy'n camymddwyn gyda rheswm meddygol. Yn ogystal trwy'r prosiect ymchwil hwn, bydd yr ymchwilydd yn ceisio darganfod sut y gall strategaethau rheoli ymddygiad gwahanol hefyd chwarae rhan yn lles y plentyn.

1.4 Dulliau Ymchwil

Er mwyn dod i gasgliad terfynol ar gyfer y pwyntiau a godwyd eisoes, mae'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd fel a ganlyn;

- Holiaduron
- Cyfweliadau
- Arsylwadau
- Recordio

Trwy ddefnyddio'r gwahanol ddulliau ymchwil uchod, dylai roi mwy o ddyfnder a dealltwriaeth i'r prosiect ymchwil a'i alluogi i ddod i gasgliad cadarn a dealladwy.

1.5 Diffiniad o’r cwestiwn

Wrth asesu'r cwestiwn a cheisio ei ddiffinio, mae'n bwysig deall y gellir dehongli'r cwestiwn fel bod ganddo bedair rhan wahanol. Yn gyntaf, beth yn union yw strategaethau rheoli

ymddygiad a sut maent yn gallu effeithio ar les plentyn? Yn ail, pam mae ymddygiad plentyn yn newid? Yn drydydd, beth yw lles a pham ei fod yn bwysig? Yn olaf, sut yn union mae yna gydberthynas rhwng strategaethau rheoli ymddygiad a lles plentyn? Trwy gadw pob un o'r pedwar pwynt gwahanol hwn mewn cof, gobeithio y bydd yn bosibl ateb y cwestiwn i'w ganlyniad llawnaf a dealladwy.

1.6 Diddordeb yn y maes

Mae'r ymchwilydd o'r farn bod y prosiect ymchwil hwn yn gyfle i ymroi'n ddyfnach i mewn i seicoleg y rhesymau sylfaenol pam mae rhai plant yn camymddwyn. Yn ogystal, drwy gydol y profiadau addysgu proffesiynol, gwelodd yr ymchwilydd enghreifftiau clir bod gan ymddygiad a lles berthynas arwyddocaol. Yng ngoleuni hyn, sbardunodd ddiddordeb brwd i’r ymchwilydd archwilio ymhellach i mewn i'r berthynas yma ac felly wedi arwain at y diddordeb yn y pwnc dan sylw.

Pennod 2- Adolygiad Llenyddiaeth

Adolygiad o lenyddiaeth yw'r bennod hon yn seiliedig ar bwysigrwydd lles plentyn mewn ysgolion cynradd, strategaethau rheoli ymddygiad a'r berthynas rhwng y strategaethau hyn a lles y plentyn. Bydd yr ymchwilydd hefyd yn ceisio tynnu sylw at faterion allweddol o fewn seicoleg y plentyn a pham y gallai plentyn gamymddwyn, yn ogystal â hyn bydd yr ymchwilydd hefyd yn trafod arferion cyfredol mewn ysgolion.

2.1 Pwysigrwydd Lles yn yr ysgol gynradd

Ni ddaeth pwysigrwydd lles plant mewn ysgolion yn amlwg tan yn ddiweddar, gydag ysgolion yn rhoi pwyslais ar addysgu plant am eu hunain a sut i edrych ar ôl eu hunain. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd lles plant yn ein system addysg. Gyda’r cwricwlwm newydd ar fin cael ei gyflwyno i Gymru, un thema barhaus yn y dystiolaeth y cwricwlwm newydd oedd yn amlwg pwysigrwydd lles, yn enwedig iechyd meddwl. Mynega Donaldson (2015, t. 28) bod angen i ysgolion ofalu am anghenion corfforol ac emosiynol eu plant a’u pobl ifanc a’u helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywyd eu hunain. Cefnogir y datganiad yma gan Cowburn a Blow (2018, t. 2) trwy ddweud bod rhaid cydnabod lles fel blaenoriaeth yn ein hysgolion a bod angen ail-gydbwyso ein system addysg. Mae'n amlwg, ni ddylid rhuthro lles plant o'r neilltu. Daw yn amlwg y dylai lles y plentyn gael cymaint o bwysigrwydd yn ein cwricwlwm â Llythrennedd neu Rifedd, gan heb ddiwallu anghenion emosiynol ein plant yn yr ystafell ddosbarth, sut ydyn ni fel addysgwyr yn disgwyl i blant allu canolbwyntio a dysgu? (Nolan, 2018). Yna, i esbonio hwn bellach, mae’n glir bod iechyd a lles plant yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau ar eu datblygiad corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac economaidd (RAND, 2018).

2.2 Effaith strategaethau rheoli ymddygiad ar les y plentyn

Mae hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol yn hollbwysig i agenda Llywodraeth Cymru. Mae sicrhau bod athrawon dosbarth yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymdrin â'u haddysgu mewn ffyrdd sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn camymddwyn yn allweddol i gyflawni dysgu ac addysgu effeithiol. Mae angen i athrawon hefyd feddu ar sgiliau ac ymatebion effeithiol ar gyfer yr achosion hynny lle mae ymddygiad anodd yn digwydd

(Llywodraeth Cymru, 2012, t. 3). Yn sgil hyn, mae rhaid ystyried a yw’r strategaethau rheoli ymddygiad rydym yn ei ddefnyddio yn ein hysgolion yn medru cael effaith uniongyrchol ar les y plentyn. Anghytuna’r Adran Addysg y Deyrnas Unedig (2016, t. 21) gyda’r ymchwilydd trwy ddweud bod tystiolaeth yn dangos bod y dull effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, datblygiad cymdeithasol a hunan-barch yw reolaeth ddosbarth cadarnhaol megis technegau gyda sesiynau un i un neu grwpiau bach i helpu disgyblion i adnabod strategaethau ymdopi a’i lles isel. Anghytuna’r ymchwilydd â'r pwynt hwn, er bod strategaethau rheoli ymddygiad yn bwysig o fewn senario addysgol, y rhan fwyaf o'r amser y rheswm pam mae plentyn yn camymddwyn yw oherwydd lles isel neu hunan-barch isel. Os byddwn ni, fel addysgwyr, yn taflu gwahanol strategaethau neu fod yn negyddol tuag at blentyn heb ystyried y broblem wraidd, bydd hyn yn ei dro yn gwneud pethau'n waeth i'r plentyn. Cefnoga hyn gan Oswalt (2015) trwy ddweud pan fydd rhieni, rhoddwyr gofal, neu athrawon yn negyddol neu'n gosbol yn gyson tuag at blant, neu anwybyddu cyflawniadau'r plentyn hynny yn rheolaidd, bydd gan blant ifanc hunanddelwedd wael a hunan-barch is.

2.3 Rhesymwaith dros ymddygiad gwael yn y dosbarth

Mewn gwirionedd ni all athrawon reoli ymddygiad eu disgyblion oherwydd yr unig ymddygiad y gall person ei reoli yw ei hun. Pan fydd athrawon yn ceisio cyfyngu'n uniongyrchol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddweud neu'n ei wneud, fel arfer maen nhw'n teimlo'n rhwystredig ac yn ddiymadferth (Gent, 2017). Wrth gwrs, mae yna amrywiaeth eang o resymau cymhleth y tu ôl i gamymddygiad disgyblion yn yr ystafell dosbarth lle mae gan blentyn broblemau difrifol wrth ymddwyn, fel arfer bydd amrywiaeth o ffactorau cyfrannol yn y gwaith (Cowley, 2014, t. 152). Mae rhaid i ni fel oedolion sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi’r amrywiaeth eang o resymau pam y gallai plentyn fod yn camymddwyn yn yr ystafell ddosbarth ac yn ogystal sicrhau bod y plant gydag oedolion sy'n deall ac yn gallu helpu i reoli eu hymddygiad (Stonehouse, 2006, t. 1-4).
Creda Wright (2009, t. 279) mai'r syniad presennol yw bod rhaid 'rheoli' ymddygiad plant gan ddefnyddio strategaethau ymddygiadol, a dylid ysgolion neu athrawon addysgu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth emosiynol yn medru cadw'r gweithwyr proffesiynol hynny sydd yn draddodiadol wedi bod yn weithlu pennaf mewn ysgolion (yn enwedig athrawon a chynorthwywyr addysgu) credu bod ganddynt y pŵer i newid ymddygiad plant a'u bod yn gyfrifol amdanynt. Yna, mae Wright yn parhau i ddatgan bod rhaid i’r athrawon a

chynorthwywyr addysgu wneud y ddau beth hyn ac ymbellhau eu hunain oddi wrth fywydau emosiynol cymhleth a phoenus plant weithiau.
Teimla hefyd bod hyn yn seilio i drafodaethau o 'reolaeth', 'disgyblaeth' a 'chywiro' yn arwain, ar y naill law, at deimladau o ddi-rym a methiant gweithwyr proffesiynol sy'n aml yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r plant yn teimlo, ac ar y llaw arall, ychydig yn fwy na darparu ateb tymor byr ar gyfer y clwyfau emosiynol mae rhai plant yn cario.

2.4 Seicoleg ymddygiad

Nid oes gan blant ifanc yr offer angenrheidiol ar gyfer rheoli eu trafferthion. Nid oes ganddyn nhw’r gallu ymennydd i ddeall a chategoreiddio eu teimladau tuag at drafferthion, i liniaru eu hunain, neu reoleiddio eu hymatebion. Mae cosbi plant yn yr ysgol am fod yn anodd nid yn unig yn annheg, ond mae hefyd yn wrthgynhyrchiol. Mae'n gwneud iddynt deimlo'n fwy di-rym, ac yn fwy digywilydd (Matthews, 2018).
Gall yn aml cysylltu'r ffordd y mae disgybl yn ymddwyn â'r arddull addysgu y maent yn gyfarwydd â. Yn ôl Bernstein (2011) mae arddulliau addysgu yn y Gorllewin heddiw yn debyg i'r pedwar arddull o rhianta a ddisgrifiwyd gan y seicolegydd Diana Baumrind yn y 1960au. Y pedair arddull magu Baumrind yw: awdurdodus, awdurdodol, caniataol, ac esgeulus. Ystyrir bod yr arddull rhianta awdurdodol yn ddelfrydol, gan ei bod yn creu awyrgylch o ofal, rhoi a chymryd, a rheolau y gall plant eu deall a'u dilyn. Creda bod rhianta awdurdodol yn medru hyd yn oed cynyddu gallu deallusol plentyn (Menon, 2011). Yn ychwanegol creda Bernstein bod cysylltiad rhwng rhianta ac addysgu ac y gall arddulliau rhianta fel y disgrifia gan Baumrind droi'n arddulliau addysgu tebyg. Anoga Bernstein i athrawon i feddwl o ran arddulliau rhianta pan fyddant yn gwerthuso sut maent yn addysgu. Cefnoga hyn gan Tu a Chou (2013, t. 1066-1072) trwy ddweud bod canfyddiadau'r astudiaeth hon yn darparu tystiolaeth ar gyfer y berthynas uniongyrchol rhwng arddull rhianta a strategaethau athrawon wrth ryngweithio yn yr ystafell ddosbarth â rheoleiddio emosiynol.

Yn ychwanegol noda Pegani (et al. 2003, t. 423-427) bod plant â chymhwysedd cymdeithasol gwael yn tueddu i gael anawsterau i fod yn llwyddiannus yn academaidd. Dangosa llawer iawn o dystiolaeth bod plant ifanc a thyfwyd i fyny heb ymyriadau cynnar gyda’u problemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, (fel ymddygiad ymosodol ac ymddygiad negyddol) mewn perygl mawr o gael eu labelu fel plant trafferthus. Noda hefyd efallai bydd

plant trafferthus yn dangos problemau academaidd, ailadrodd graddau, yn gadael yr ysgol yn gynnar ac yn arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddiweddarach.

2.5 Y perthynas rhwng ymddygiad a lles y plentyn

Gyda'r cwricwlwm newydd yng Nghymru ar fin cael ei gyflwyno, mae'n amlwg bod technoleg yn rhan fawr. Dadleua'r ymchwilydd mae technoleg yn medru cael effaith niweidiol ar ymddygiad a lles plentyn yn yr ysgol. Cefnoga hyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (2013, t. 6) trwy ddweud mai'r amser a dreuliwyd plant yn chwarae gemau cyfrifiadurol yn gysylltiedig â lles negyddol pobl ifanc. Noda hefyd mae gwylio teledu yn gysylltiedig ag adroddiadau athrawon a rhieni o blant ag anawsterau sylw. Mae ymchwil tymor hir yn awgrymu bod gwylio teledu yn iau (un i dair oed) yn rhagweld yn ddiweddarach anawsterau sylw a gorfywiogrwydd. Nid yw hyn yn golygu y dylem ddileu'r addysgu a'r defnydd o dechnoleg yn llwyr yn ein hysgolion, mae'n rhaid ei blismona'n gywir a'i addysgu'n effeithiol i sicrhau nad yw plant yn dioddef trafferthion ymddygiad a lles isel oherwydd technoleg.

Ni ellir anwybyddu'r berthynas rhwng anawsterau ymddygiad a lles y plentyn. Nid yn unig y gall y ddau effeithio ar y plentyn a'i gyfoedion o gwmpas, gall y ddau gael effaith niweidiol ar gyflawniadau addysg plentyn. Cefnoga hyn gan Gutman a Vorhaus (2012, t. 6) trwy ddweud "For academic achievement, emotional, behavioural, social, and school wellbeing at ages 7, 10 and 13 are significantly correlated with later academic achievement at Key Stage 2". Mae'n gynyddol bwysig ein bod ni fel addysgwyr ddim yn anwybyddu'r gydberthynas rhwng ymddygiad a lles, a'r effaith niweidiol y gall ei gael ar gyflawniad academaidd plentyn.

Erbyn hyn, mae'n amlwg bod rhywfaith o gysylltiad rhwng lles ac ymddygiad plant. Felly mae'n bwysicach erbyn hyn i ddeall beth gall effeithio ar les ac ymddygiad plentyn. Mynega Moriarty (2018) isod am yr hyn sy'n effeithio ar les ac ymddygiad plentyn:

> It could be argued that when parents are having a bad day at work, their emotions are likely to reflect in their behaviour, which could mean that children are going to pick up on their behaviour and replicate this too.

Yn ychwanegol i hyn, mae Bernados (2018) yn cydnabod y gallai materion ar gyfer lles plant fod yn fwy cyffredin hefyd pan fyddant yn mynd trwy drawsnewidiadau, fel symud tŷ neu enedigaeth baban newydd. Yn dilyn y ddau ddatganiad yma, mae'n bwysig deall bod plant yn dreiddgar iawn; gall ffactorau o'u bywyd cartref gael effaith niweidiol ar eu lles yn yr ysgol ac felly'n effeithio ar eu hymddygiad ym mhob agwedd arall. Yna, mae'n hanfodol i addysgwyr ddeall y ffactorau hyn cyn neidio i'r casgliad hawdd a syml bod gan y plentyn ADHD. Er mwyn cael unrhyw ddealltwriaeth o bâm mae plentyn yn camymddwyn yn yr ystafell ddosbarth, mae'n hanfodol astudio'r darlun llawn.

2.6 Arferion cyfredol mewn ysgolion cynradd

Mae’n amlwg bod rheoli ymddygiad yn sail i addysgu a dysgu llwyddiannus. Mae ysgolion cynradd sydd â dyfarniadau ymddygiad da neu ragorol, er enghraifft, ar gyfartaledd, gyda chanrannau uwch o ddisgyblion â chanlyniadau gwell yn Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2, o'i gymharu ag ysgolion ag ymddygiad boddhaol neu annigonol (DfE, 2012). Noda Estyn (2016) y ganlynol am arfer effeithiol o ysgol benodol yng Nghaerdydd;

> Mae’r ysgol wedi datblygu ei system ymddygiad ei hun, o’r enw ‘Brig y Goeden’, sy’n cymryd arwyddlun yr ysgol (coeden) a gwerthoedd craidd yr ysgol, ac yn eu trawsnewid yn ffurf gorfforol o siart ymddygiad ym mhob ystafell ddosbarth a gofod dysgu.

Mae'r enghraifft arfer effeithiol hon o ysgol yng Nghaerdydd yn bwysig iawn, mae’n dangos bod strategaethau gweledol yn effeithiol ar gyfer ymddygiad plant mewn o fewn addysg. Cefnoga hyn gan CASTL (2013) trwy ddweud “cues and visuals work because they quickly and efficiently remind children what behaviors are expected of them.” Felly o ganlyniad i hyn, daw i’r amlwg bod arfer effeithiol Estyn o’r ysgol yng Nghaerdydd yn strategaeth werth ystyried er mwyn wella ymddygiad a lles y plentyn.

Yn ychwanegol i hyn, noda Estyn (2018) yr effeithiolrwydd o ddefnyddio yoga i wella safonau ymddygiad a gwella medrau canolbwyntio. Dywed Estyn y canlynol:

> Mae’r gwaith hwn wedi codi safonau lles y staff a’r disgyblion, ac wedi codi safonau ymddygiad trwy gydol yr ysgol. Mae’r disgyblion yn tawelu ar ôl y sesiynau yoga, yn ffocysu’n well yn ystod gwersi ac yn ymwybodol o sut i ymlacio.

Yn dilyn y datganiad uchod gan Estyn mae'n amlwg bod strategaethau effeithiol clir i dargedu plant sydd â phroblemau ymddygiad a lles negyddol. Mae'n hanfodol bod mwy o ysgolion yn defnyddio'r strategaethau hyn ac yn dilyn yr un peth er mwyn gwella ymddygiad neu les plentyn ymhellach. Yn ychwanegol, mae’r datganiad yma’n bwysig oherwydd mae’n amlinellu bod Estyn yn ymwybodol o'r berthynas rhwng lles ac ymddygiad, felly’n cytuno gyda’r ymchwil bod lles ac ymddygiad plentyn yn effeithio ar ei gilydd.

Pennod 3: Methodoleg

3.1 Dulliau casglu gwybodaeth a rhesymeg/ cyfiawnhad

Y rheswm dros ddefnyddio amryw o wahanol ddulliau o gasglu gwybodaeth oedd sicrhau cynyddiad dyfnder yr astudiaeth. Credai'r ymchwilwyr y byddai casglu cymaint o wybodaeth wahanol yn sicrhau bod y prosiect ymchwil yn fwy credadwy ac yr ystyriwyd pob barn trwy gydol y prosiect ymchwil.
Fel y nodwyd ym mhennod 1.4 ystyrir yr ymchwilydd defnyddio holiaduron, cyfweliadau athrawon a phlant, arsylwadau a recordio. Dechreuodd yr ymchwilydd gyfweld athrawon o fewn yr ysgol (atodiadau 1 a 2) a oedd ag arbenigedd perthnasol yn y maes dan sylw. Teimlai'r ymchwilydd y byddai cyfweld ag athrawon a oedd yn adnabyddus yn yr ysgol yn sicrhau teimlad personol i'r prosiect ymchwil, tra bod atebion holiaduron effallai'n llai personol a gall arwain at wneuthuriad. Cefnoga hyn gan Green (2017) trwy ddweud "use interviewers over questionnaires, as personal interviews can provide more information about the test subject's answers while providing the same sort of statistical precision." Yn sgil hyn, teimlai'r ymchwilydd y byddai defnyddio cyfweliadau yn rhoi dealltwriaeth glir a manwl o sut mae athrawon yn teimlo o ddifrif am y pwnc dan sylw.

Ar y llaw arall, gallech ddadlau bod cyfweliadau yn cymryd gormod o amser ac felly'n ddull hir iawn o gasglu gwybodaeth i gymharu â holiaduron. Cefnoga hyn gan McLeod (2018) isod;

> Data can be collected relatively quickly because the researcher would not need to be present when the questionnaires were completed. This is useful for large populations when interviews would be impractical.

Yn dilyn y cyfweliadau gyda'r ddau aelod o staff yn yr ysgol, sicrhaodd yr ymchwilydd hefyd ryddhau holiaduron i aelodau eraill o staff. Y teimlad y tu ôl wneud hyn oedd byddai'n rhoi fwy o ddyfnder gwybodaeth i'r prosiect ymchwil ac yn sicrhau nad oedd yr ymchwilydd yn cymryd amser aelodau eraill o staff. Yn ychwanegol i hyn, trwy sicrhau'r defnydd o holiaduron bydd y staff yn medru ei llenwi yn ei amser ei hunain. Cefnoga hyn gan Evalued

(2006) trwy ddweud “respondents have time to think about their answers; they are not usually required to reply immediately.” Gan ystyried hyn, dyma pam dewisodd yr ymchwilydd i ddefnyddio holiaduron yn ogystal â chyfweliadau.

O ran y disgyblion, cyfwelodd yr ymchwilydd â phedwar o blant o fewn y dosbarth. Cynhaliwyd y cyfweliadau (atodiadau 5, 6, 7 a 8) yng nghefn yr ystafell ddosbarth tra bod wers ar waith. Gwnaeth yr ymchwilydd sicrhau ar bob adeg bod y plant yn deall os nad oeddent eisiau ateb cwestiwn nad oedd yn rhaid iddynt ei wneud. Canfu'r ymchwilydd fod cyfweld plant yn strategaeth ddefnyddiol iawn wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer y prosiect ymchwil, gwelir hefyd bod y plant o fewn y dosbarth yn barod i ateb cwestiynau ac yn barod i helpu gyda’r ymchwil. Cefnoga hyn gan Morison (et al. 2000, t. 113-130) trwy ddweud “there is an increasing insistence that the feelings and wishes of young people should be taken in to account”.
Teimla’r ymchwilydd nad oedd atebion y plant mor onest ag y gallent wedi bod. Mae yna deimlad pan mae oedolion o gwmpas bod plant yn ymddangos fel pe baent yn gwylio'r hyn maent yn ei ddweud er mwyn osgoi dadrithio neu i greu argraff ar yr athro. Cafodd yr ymchwilydd y teimlad gan y plant wrth gynnal y cyfweliadau fel bod y plant yn chwilio am ganmoliaeth ar gyfer bob ateb. Cefnoga’r teimlad yma gan LSE (2010) gan ddweud “Some children may feel uneasy or afraid of making a mistake. The researcher should encourage the child and make him/her feel comfortable in answering whatever the answer may be.”

Yn ystod amser yr ymchwilydd ar ymarfer addysgu mewn ysgolion, roedd yn ddigon ffodus i weld plant ag anawsterau ymddygiad mân. Roedd y broses o addysgu'r plant hyn a gweithredu strategaethau gwahanol o fewn gwers wedi sicrhau cyfoethogiad i’r prosiect ymchwil ac wedi sicrhau y gall yr ymchwilydd drafod profiadau bywyd go iawn wrth gyfeirio at y cysylltiad rhwng ymddygiad a lles plentyn.

3.2 Moeseg

Wrth ddechrau ar y prosiect ymchwil hwn roedd yn hanfodol bob amser ymddwyn yn foesegol, wrth sicrhau bob amser bod yr ymchwil yn cyd-fynd â Chanllawiau Moesegol BERA ar gyfer Ymchwil Addysgol. Noda BERA (2018, t. 6) y canlynol “educational researchers should operate within an ethic of respect for any persons - including themselves -

involved in or touched by the research they are undertaking". Yn sgil hyn, sicrhaodd yr ymchwilydd bod y datganiad yma mewn gof trwy gydol y broses.

Yn gyntaf, cyn dechrau ar y cyfweliadau gyda'r athrawon yn yr ysgol, sicrhaodd yr ymchwilydd fod yr athrawon yn llenwi ffurflen ganiatâd (atodiadau 9 a 10) a bod yr athrawon yn deall na fyddai eu gwybodaeth yn cael ei rhannu. Yn ail, cyn dechrau ar y cyfweliadau gyda'r plant, sicrhaodd yr ymchwilydd bod gan ganiatâd yr athro yn y dosbarth. Esboniodd yr ymchwilydd i'r plant beth oedd pwrpas y cwestiynau ac roeddent yn ddigon hapus i gymryd rhan ac ateb unrhyw gwestiynau ar gyfer y prosiect ymchwil, yn ogystal, sicrhaodd yr ymchwilydd bod y plant yn deall os nad oeddent am ateb cwestiwn, doedd ddim rhaid iddyn nhw. Yn olaf, mewn cydberthynas â gofynion BERA ar gyfer preifatrwydd ac amddiffyn, sicrhaodd yr ymchwilydd na chofnodwyd unrhyw fanylion y cyfranogwyr, mae'r holl dystiolaeth yma i'w weld yn atodiad 11 ynghlwm a'r ffurflen moeseg.

3.3 Cyfyngiadau'r dulliau ymchwil

Fel y trafodwyd uchod, yn amlwg roedd rhywfaint o gyfyngiadau i'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gan yr ymchwilydd. Yn gyntaf, gwelodd yr ymchwilydd anhawster ceisio dod o hyd i'r amser a oedd fwyaf addas i'r athrawon yn yr ysgol i gael cyfweliad, gan fod ganddynt gyfrifoldebau eraill. Yn ogystal â hyn, er bod yr ymchwilydd wedi anfon holiaduron allan, dim ond dau a dderbyniwyd yn ôl, mae hyn felly'n golygu nad yw'r wybodaeth a gesglir mor fanwl ac eang ag y mae'r ymchwilydd yn ei feddwl gyntaf. Gallai'r ymchwilydd wedi rhoi ffrâm amser ar y cwestiynau, er mwyn osgoi'r digwyddiad yma eto.

Yn olaf, gwelir y cyfweliadau gyda'r plant yn ddefnyddiol, serch hynny, mae rhaid nodi o fewn amgylchedd lle mae plentyn yn cael ei gyfweld gan oedolyn a gyda'r athro/athrawes yn y dosbarth, ei fod yn lleihau dibynadwyedd yr atebion a roddodd y plentyn. Er mwyn gwella y tro nesaf, gallai'r ymchwilydd edrych ar wahanol strategaethau o gyfweld plant i sicrhau nad oes amheuaeth ar y wybodaeth a gesglir am ddibynadwyedd.

Pennod 4: Canlyniadau a Thrafodaeth

Pwrpas y bennod hon yw trafod a gwerthuso'r holl ddata a gasglwyd gan y dulliau ymchwil a ddefnyddir gan yr ymchwilydd. Yn dilyn yr amser a dreuliwyd gan yr ymchwilydd yn ymchwilio, sicrhaodd yr ymchwilydd ei fod yn darllen yn gywir drwy'r holl ddata a gasglwyd i sicrhau cynrychiolaeth gywir o fewn y prosiect ymchwil hwn o ffeithiau'r pwnc dan sylw. Fel y noda uchod, mae yna enghreifftiau o'r cyfweliadau athrawon (atodiadau 1 a 2) yn ogystal ag enghreifftiau o'r holiaduron (atodiadau 3 a 4) a hefyd enghreifftiau'r cyfweliadau plant (atodiadau 5, 6, 7 a 8). Cynhyrchwyd y canlyniadau yn y bennod hon i gyd gan y cyfweliadau gydag athrawon, cyfweliadau gyda'r plant a'r holiaduron.

4.1 Holiaduron a chyfweliadau athrawon

Rhannwyd yr holiadur yn dair adran gyda chyfanswm o un ar ddeg o gwestiynau gwahanol. Canolbwyntia'r cwestiynau ar wahanol strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad, ymddygiad plant, a lles plant. Nod y cwestiynau oedd derbyn dealltwriaeth glir a phroffesiynol o sut mae athrawon yn teimlo tuag at y pynciau hyn yn ogystal â chefnogi'r prosiect ymchwil hwn ymhellach. Gan mai dim ond dau holiadur wedi'u llenwi gan aelodau'r staff a dderbyniodd yr ymchwilydd yn ôl, bydd y cyfweliad gyda'r ddau aelod o staff yn adeiladu'r data, gan fod y ddau ohonynt yn gofyn yr un cwestiynau. Felly, trafoda canfyddiadau'r cyfweliadau a'r holiaduron fel un.

1. Ydych chi wedi cael profiad gyda phlentyn ag anawsterau ymddygiad?

Roedd y cwestiwn cyntaf yn un caeedig gyda'r bwriad o ganfod a fyddai'r unigolyn yn gallu parhau i ateb cwestiynau yn yr adran gyntaf. Pe bai'r unigolyn wedi ateb na, byddai'r ymchwilydd wedi hepgor i'r ail adran yn syth.

2. Os ydych, pryd a ble mae'r ymddygiad yn digwydd?

Gall newid yn yr amgylchedd ac unrhyw newid emosiynol ym mywyd plentyn gael effaith niweidiol ar ymddygiad. Cefnogir hyn gan y datganiad canlynol gan Delucas (2019)

“Emotional changes, genetics and lifestyle play an important role when finding the root cause of behavior issues.”

Mae ymateb cyffredinol yr holiaduron (atodiadau 3 a 4) wedi'i grynhoi mewn un ymateb penodol lle mae’r atebwyr yn datgan “Os nad yw plentyn yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth emosiynol, ni all ddysgu digwydd” mae hyn yn crynhoi'r hyn y mae'r ymchwilydd yn ei gynnig. Ochr yn ochr â dadl Deluca, mae'n ymarferol bod lles emosiynol plentyn ar flaen y gad ym maes addysg. Felly, fel dywed yr ymatebydd "bydd gan blentyn hapus agwedd gadarnhaol at ddysgu a chymryd rhan yn yr ystafell ddosbarth"

3. Pa strategaethau sydd wedi gweithio i chi gyda phlant ag problemau ymddygiad?

Noda un o’r atebion y canlynol am strategaethau sydd yn gweithio gyda phlant ag problemau ymddygiad: “Eistedd gyda'r plentyn mewn amgylchedd hamddenol a defnyddio strategaethau neu raglenni fel chwarae cadarnhaol”. Cefnoga’r datganiad yma gan Gyngor Sir Derbyshire (2019) trwy ddweud y canlynol:

> The structured sessions are tailored to meet individual needs, assisting in developing, listening and communication skills, addressing anger management issues and helping children and young people to deal with the consequences of their actions.

Mae rhaid i'r ymchwilydd gefnogi'r delfryd uchod o sesiynau chwarae strwythuredig. Mae'r sesiynau hyn yn caniatáu i addysgwyr addysgu plentyn o fewn amgylchedd rheoledig ar sut y dylent ymddwyn, ac yn ogystal â hyn, mewn rhai achosion mae'n caniatáu i'r plentyn agor lan yn y sesiynau ynghylch beth sy'n eu poeni. Cefnoga hyn eto gan Gyngor Sir Derbyshire (2019) trwy ddweud “it is designed to equip children and young people with the necessary resilience, social and life skills to manage the issues that confront them”

4. Gyda’r defnydd o’r strategaethau hyn, pa mor gyflym ydych wedi gweld newid mewn ymddygiad plant?

Noda gan un o'r ymatebwyr yn yr holiaduron a'r cyfweliadau "Pan fydd yr athro'n dechrau deall beth sy'n sbarduno ymddygiad heriol yn y plentyn, gallant fabwysiadu strategaethau i ymyrryd yr ymddygiad cyn i’w ddechrau". Mae ymateb yma’n ddiddorol iawn; wrth feddwl

am ymddygiad heriol, mae'r broses gadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn gyntaf yn golygu ein bod yn ystyried yr hyn y gall plentyn fod yn ceisio ei gyfathrebu trwy ymddygiad - pam mae'r plentyn yn ymddwyn fel hyn neu'r hyn y mae'r plentyn yn ei gyflawni drwy'r ymddygiad (Rooks, d.d). Yn ychwanegol, mynega'r ymatebwyr hefyd "Mae cael agwedd dawel, ddeallus at y plentyn, a ddim gweiddi bob amser yn helpu." Mae hyn hefyd yn ddiddorol, fel arfer y strategaeth gyntaf y byddai athro yn ei defnyddio tuag at blentyn ag ymddygiad heriol yw gweiddi. Mae'n bwysig wrth ystyried ymateb yr ymatebydd a'r amrywiol awduron, nad yw plentyn yn camymddwyn nac yn mabwysiadu ymddygiad heriol oherwydd ei fod eisiau. Mae'n rhaid i ni ystyried fel addysgwyr bod rhywbeth yn digwydd ym mywyd y plentyn hwnnw naill ai yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol i wneud iddo/i ddechrau camymddwyn. Unwaith y byddwn ni fel addysgwyr yn mabwysiadu'r ddealltwriaeth hon, gallwn gynnig y strategaeth orau i'r plentyn oresgyn eu hymddygiad heriol. Cefnoga hyn gan Bennett (2017) "there is no need, *ever*, for a teacher to shout themselves hoarse in order to achieve quiet. If you find yourself going down that road then you are lost."

Adran dau o'r holiadur

1. Pam mae lles disgyblion yn bwysig?

Mae lleoliadau plentyndod cynnar yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo iechyd a theimlad o les i blant, eu teuluoedd ac yn y pen draw eu cymunedau (Hayden a Macdonald, 2000, t. 32). Felly cefnogir nodau hybu iechyd a lles gan rieni, staff a gweithwyr proffesiynol plentyndod cynnar sy'n defnyddio gwasanaethau plentyndod cynnar. Mae iechyd a lles y plentyn yn un o agweddau pwysicaf addysg ar hyn o bryd, mae bod yn iach yn golygu llawer mwy na chael bwyd maethlon a bod yn rhydd o salwch. Ar gyfer babanod a phlant ifanc mae'n hanfodol o bwysig ei bod yn derbyn gofal gan rywun sy'n bwysig iddynt ar gyfer eu hiechyd a'u lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol (Eriding, 2007, t. 1). Noda gan un o'r ymatebwyr "Bydd gan blentyn hapus agwedd gadarnhaol at ddysgu a chymryd rhan yn yr ystafell ddosbarth". Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd lles, eglura Better Health (2018) y canlynol:

> Wellbeing is not just the absence of disease or illness. It is a complex combination of a person's physical, mental, emotional and social health factors. Wellbeing is strongly linked to happiness and life satisfaction. In short, wellbeing could be described as how you feel about yourself and your life.

Felly, o'r dystiolaeth uchod, mae'n amlwg na ddylid gwthio lles y plentyn o'r neilltu ac felly ei ystyried yr un mor bwysig ag agweddau eraill o'n cwricwlwm o fewn addysg yng Nghymru.

2. Pa ran mae ymddiriedolwyr yn ei chwarae i sicrhau lles disgyblion?

"Education settings, including primary schools, secondary schools, colleges and universities, are key to promoting emotional well-being and good mental health" (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018, t. 20). Fel noda uchod gan yr ymchwilydd, mae'n gyfrifoldeb ar addysgwyr i sicrhau bod lles disgyblion yn ein hysgolion yn cael ei diwallu. Cefnoga hyn gan ymatebwyr yr holiaduron ar gyfweliadau trwy ddweud mai "lles plentyn yn gyfrifoldeb pawb o'r pennaeth i'r goruchwylwyr amser cinio, i sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n hapus ac yn cael y gefnogaeth, ac yn ddigon hyderus i rannu pryderon" Daw i'r amlwg bod yn hanfodol bod pawb yn y sector addysgol yn chware rôl hanfodol o bwysig i sicrhau lles disgyblion.

3. Sut allwn ni wella lles disgyblion?

Yr ysgol yw lle y gallwn wneud yr effaith gadarnhaol orau ar les plant, cefnoga hyn gan Evans (2016) trwy ddweud "Schools can make a big difference to children's emotional health and have the potential to make significant and lasting positive impacts". Ond mae'n rhaid i ni geisio defnyddio gwahanol ffyrdd o sicrhau bod lles plentyn yn cael ei diwallu o fewn ein cwricwlwm. Mae iechyd a lles yn un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad craidd a nodir yng nghwricwlwm newydd Cymru ar gyfer pobl ifanc 3-16 oed, a bydd yn rhan strwythuredig ar wahân o'r cwricwlwm am y tro cyntaf (GIG, 2018). Cefnoga'r ymatebwyr pwysigrwydd lles a dywed bod angen "lles emosiynol ac ymwybyddiaeth ofalgar ym mhob ysgol a bod pawb yn ei weld fel eu cyfrifoldeb" er mwyn sicrhau ein bod yn gwella lles disgyblion. Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan Ysgol Gynradd Woodroffe (2017, t. 2) trwy ddweud bod rhaid i raglenni ac arferion ymddygiad disgyblion "embrace a health-promoting approach to creating a safe, supportive and caring environment".

Adran 3 o’r holiadur

1. Yn eich barn broffesiynol, a ydych chi’n credu bod perthynas rhwng ymddygiad a lles y plentyn?

Roedd y cwestiwn yma’n un caeedig er mwyn sefydlu dealltwriaeth a oedd gweithwyr proffesiynol yn y system addysgol yn credu yn y berthynas rhwng lles ac anawsterau ymddygiad. Yr ateb pennaf i'r cwestiwn hwn oedd eu bod yn credu yn y berthynas. Nodir hyn gan un o'r atebion i'r cwestiynau lle maent wedi ymhelaethu ar eu hateb "Os nad yw plentyn yn teimlo ei fod yn derbyn cefnogaeth emosiynol mae hyn yn aml yn amlygu ei hun mewn ymddygiad heriol". Cefnoga Llywodraeth Cymru hyn, trwy ddweud y canlynol;

> An unstructured playtime can sometimes be the cause of a range of behavioural incidents which not only impact on the health and well-being of other children but also upon the morale of the midday supervisors (Llywodraeth Cymru, 2012, t. 84)

Mae'n dod yn amlwg bod cysylltiad clir rhwng ymddygiad, strategaethau ymddygiad a lles y plentyn. Fel y nodwyd uchod gan yr ymchwilydd, mae lles y plentyn yn dod yn agwedd hanfodol ar addysg Gymraeg, felly, ni ellir ei anwybyddu.

4.2 Cyfweliadau plant (Atodiadau 5,6,7 a 8)

Er bod llawer o wahanol gwestiynau yn y cyfweliadau plant, mae'r ymchwilydd wedi dewis edrych ar y tri mwyaf perthnasol yn benodol. Gellir gweld y cyfweliadau llawn yn yr atodiadau (5, 6, 7 ac 8).

1. Dywedwch wrthyf am y rhan orau o’ch diwrnod heddiw.

Roedd y cwestiwn hwn yn un syml er mwyn i'r ymchwilydd gael dealltwriaeth o'r hyn yr oedd y plant yn hoffi ei wneud. Byddai hyn wedyn yn rhoi dealltwriaeth i'r ymchwilydd o bosibl pam nad ydynt yn hoffi bod yn yr ystafell ddosbarth neu pam y gallent gamymddwyn. Yr ateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd eu bod yn hoffi bod tu allan yn chwarae rygbi neu bêl-droed gyda'u ffrindiau.

Mae'n hawdd anghofio pa mor bwysig yw chwarae i blant o bob oed, mae'r plant yn y cyfweliadau wedi tynnu sylw at ei bwysigrwydd drwy ddweud mai dyna maen nhw'n mwynhau ei wneud fwyaf. Cefnogir ei bwysigrwydd hefyd gan Family Lives (2018) trwy ddweud "play is one of the main ways in which children learn and develop. It helps to build self worth by giving a child a sense of his or her own abilities".

2. Beth oedd y peth anoddaf y bu'n rhaid i ti ei wneud heddiw?

Mae'n bwysig fel addysgwyr i ddeall y pethau y mae plant yn weld yn anodd yn yr ysgol, boed hynny ar yr iard amser cinio neu waith maent yn ei weld yn heriol. Mae hefyd yn gynyddol bwysig ein bod yn caniatáu i blant brofi'r heriau a'r pethau y maent yn weld yn anodd er mwyn datblygu strategaethau ymdopi. Mae'r dyfyniad canlynol yn crynhoi hyn yn berffaith "When your children feel stressed out, help them understand their body is preparing them to be brave. Teach them that they can be warriors" (Hagen, 2018).
Dewisodd yr ymchwilydd ofyn y cwestiwn hwn er mwyn sefydlu dealltwriaeth glir o'r hyn y gallai'r plant ei weld yn anodd yn yr ysgol. Dywedodd un o'r plant mai'r peth anoddaf y bu'n rhaid iddynt ei wneud heddiw oedd "cadw cyfrinach". Gwelir y pwnc hwn yn amlwg yn peri gofid gan na fyddai'r plentyn am ateb unrhyw gwestiynau yn ymwneud â pham ei bod e/hi'n weld cadw'r gyfrinach yma'n rhywbeth anodd.

3. Ydych chi'n meddwl eich bod yn camymddwyn, os felly, pam?

Y cwestiwn hwn oedd y pwysicaf i'r ymchwilydd o fewn y cyfweliadau gyda'r plant. Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi dealltwriaeth glir i'r ymchwilydd o bâm roedd y plant yn credu oeddent yn camymddwyn yn y dosbarth. Mae'n hanfodol ein bod ni fel addysgwyr yn deall pam mae plant yn camymddwyn, oherwydd bod "Guiding children's behaviour is an important aspect of educating and caring for children. Positive strategies need to be developed to assist children to learn appropriate ways of behaving" (Victoria, 2017).
Roedd y plant yn onest iawn gyda'u hatebion i'r cwestiwn yma'n benodol. Dywed Plentyn A eu bod yn camymddwyn i 'showan off' ac weithiau oherwydd nad yw'n deall y gwaith, maent wedyn yn chwarae o gwmpas. Dywed Plentyn B, eu bod yn weld y gwaith yn rhy hawdd, yn ei orffen yn gynnar ac yna'n camymddwyn. Y rhan fwyaf o'r amser mae Plentyn B yn camymddwyn i wneud y dosbarth i chwerthin. Nododd gweddill y plant nad oeddent yn credu eu bod yn camymddwyn.

Beth sy’n bwysig i ystyried yw’r ffaith bod Plentyn A a Plentyn B yn gwrthgyferbynnu ei gilydd o ran eu hanghenion addysgol, ac felly nid yw un o'u hanghenion yn cael eu diwallu. Er mai Plentyn A sydd angen cefnogaeth ychwanegol a Phlentyn B angen ei herio'n fwy, mae'r ddau yn troi at gamymddwyn er mwyn ennill sylw'r athro. Nid yw eu hymddygiad yn cael ei ddadansoddi ac felly nid yw eu lles addysgol yn cael ei ddiwallu. Mae angen cymorth ychwanegol ar Blentyn C a Ch ac mae angen edrych ar agweddau megis eu bywyd yr ysgol / bywyd cartref fel y gall yr athrawon ddeall y rhesymeg y tu ôl i'w problemau ymddygiadol. Mae angen i'r athro wneud yr ymdrech i ddatblygu dealltwriaeth o pam mae'r plentyn yn camymddwyn.

Pennod 5: Casgliad

5.1 Adlewyrchu ar fwriad y prosiect ymchwil

Prif nod y prosiect ymchwil hwn oedd sefydlu a oes perthynas rhwng ymddygiad, strategaethau rheoli ymddygiad a lles plentyn. Bwriadwyd astudio'r cysylltiadau a'r ffyrdd y gall y berthynas rhwng y pynciau dan sylw effeithio ar ddysgu a chyflawniad plant o fewn addysg Gymraeg.

5.2 Prif bwyntiau a godir

Un o'r pwyntiau mwyaf arwyddocaol o'r prosiect ymchwil yma yw'r ffaith bod pwysigrwydd lles o fewn ein cwricwlwm yng Nghymru yn parhau i gynyddu. Cefnoga hyn gan Madahar (2013) trwy ddatgan "mae'n rhaid i ysgolion gydnabod pwysigrwydd materion lles yn gyson, nid yn unig er lles disgyblion yn y gymdeithas ehangach, ond hefyd er mwyn iddynt allu dysgu'n effeithiol yn yr ysgol". Felly, mae lles plant yn effeithio'n uniongyrchol ar addysg disgyblion.

Yn ail, noda hefyd o fewn y prosiect ymchwil yr effaith mae strategaethau rheoli ymddygiad yn medru cael ar les y plentyn. Daw i'r amlwg trwy gydol y prosiect ymchwil hwn, os nad oes gan athro ddealltwriaeth glir o pam y gallai plentyn fod yn camymddwyn, gall hyn gael effaith uniongyrchol ar les y plentyn. Mae hefyd yn bwysig nodi bod rhaid i addysgwyr fynd at unrhyw sefyllfa gydag empathi a dealltwriaeth, gan nad yw plant yn camymddwyn am ddim rheswm. Cytuna Burton (2018) a'r ymchwilydd trwy ddatgan bod "behaviour management charts harm the mental wellbeing of all children". Felly, mae'n hanfodol bod addysgwyr yn deall pwysigrwydd lles disgyblion a mabwysiadu strategaethau newydd i feithrin plant ag anawsterau ymddygiad.

Yn olaf, mae mor bwysig ag erioed i addysgwyr ddeall y seicoleg y tu ôl i bam mae plant yn camymddwyn yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig cyfeirio yn ôl at un o ymatebion yr holiaduron yn yr ysgol (atodiadau 3 a 4), lle mae ateb yr athrawon yn siarad cyfrolau. "Mae llawer o athrawon yn credu bod ymddygiad heriol yn ymddygiad dysgedig. Yn aml mae rhesymau drosto. Mae angen i ni wrando a deall mwy".

Mae pedwar prif reswm o bam mae plant yn camymddwyn: sylw, pŵer, dial, ac annigonolrwydd (Winterman, 2018). Felly mae'n hanfodol ein bod yn deall y rhesymau hyn ac yn darparu ar ein strategaethau i gyd-fynd ar wahanol sefyllfaoedd.

5.3 Dysgu proffesiynol

Teimlir, o fewn addysg, ein bod yn rhy gyflym i labelu plant ag anawsterau meddygol cyn sefydlu'r broblem wraidd o ran pam mae plentyn yn camymddwyn neu'n mynegi ymddygiad heriol. Cefnoga hyn gan The Guardian (2015) trwy fynegi bod "too many adults assume that if a child is struggling there's something wrong.". Yn sgil hyn, cynhyrchwyd yr ymchwil yma dadl yn erbyn y syniad bod gwastad rheswm meddygol tu ôl i bam mae plant yn camymddwyn yn yr ystafell dosbarth. Gan ddefnyddio barn pobl broffesiynol y tu fewn i addysg yng Nghymru, mae'r ymchwil wedi profi bod rhaid bod yn ystyrlon ac i beidio â neidio i gasgliadau.
Ar nodyn personol, mae'r ymchwilydd wedi sefydlu ysgogiad clir tuag at y berthynas rhwng strategaethau ymddygiad, ymddygiad a lles y plentyn, sydd yn ei dro wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well o'r pynciau ac wedi bod yn ffrwythlon i ddyfodol yr ymchwilydd o fewn addysg yng Nghymru.

5.4 Awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach

Er bod y prosiect ymchwil hwn wedi sefydlu canlyniadau sy'n gefnogol ac yn gadarnhaol tuag at y cwestiwn, mae'n bwysig nodi bod nifer o gyfyngiadau i'r prosiect. Un o wendidau mwyaf y prosiect hwn yw ei fod yn sampl ar raddfa fach iawn o'r hyn a allai fod yn bosibl. Byddai wedi bod yn fuddiol pe gallai'r ymchwilydd fod wedi cynnwys mwy o weithwyr proffesiynol ym maes addysg ac wedi sefydlu casgliad gwell o ddata i wella'r canlyniadau. Yn ogystal, byddai wedi bod yn well cyfweld mwy o blant, unwaith eto, i sefydlu gwell casgliad o ddata.

5.5 Diweddglo

Awgryma Mentally Healthy Schools (2018) "Behaviour is often how children communicate hidden difficulties or distress". Felly'n awgrymu ei fod yn hanfodol i ni ddeall hyn a sicrhau ein bod yn darparu'r strategaethau gorau ar gyfer hyn.

Daw yn amlwg drwy gydol y prosiect ymchwil hwn bod perthynas glir rhwng strategaethau ymddygiad, ymddygiad a lles y plentyn. Gefnogir hyn gan weithwyr proffesiynol o fewn y system addysgol yng Nghymru yn ogystal ag amryw o awduron. Felly, wrth gasglu tystiolaeth yr ymchwilydd mae'n glir bod yr ymchwil eilaidd yn cael eu cefnogi gan ymchwil cynradd megis y cyfweliadau a'r holiaduron. Mae'r ffaith bod y dystiolaeth i gyd yn cyferbynnu yn ategu dadl yr ymchwilydd bod yna perthynas amlwg rhwng rheoli ymddygiad a lles y plentyn. Pe bai hynny'n addysgiadol, bywyd cartref, newidiadau i'w bywydau personol neu heriau emosiynol, mae'n angenrheidiol astudio'r ffactorau yma'n llawn cyn labelu plant gydag anhawster meddygol fel ADHD.

Rhestr gyfeiriadau

Barnardos (2018). *Research Review Promoting Children's Emotional Health*. Barnardo's. Ar gael yn: http://www.barnardos.org.uk/promoting_children_s_emotional_health_a_research_review.pdf [Darllenwyd: 15fed o Ebrill 2019].

Bennett, T. (2017). *Good classroom management isn't violence- A behaviour panel at the Wellington Festival of Education.* Ar gael yn: http://behaviourguru.blogspot.com/2017/06/good-classroom-management-isnt-violence.html. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.]

BERA (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4th ed. Llundain: British Educational Research Association. t. 6.

Bernstein, D. (2011). *APS 2011: Douglas A. Bernstein: APS-David Myers Distinguished Lecture on the Science and Craft of Teaching Psychology.* Ar gael yn: https://vimeo.com/24741743. [Darllenwyd: 12fed o Ebrill 2019.]

Better Health. (2018). *Wellbeing.* Ar gael yn: https://www.betterhealth.vic.gov.au/health/healthyliving/wellbeing. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.]

Burton, N. (2018). *Behaviour Management Policies: More Harm Than Good?* Ar gael yn: https://www.teachertoolkit.co.uk/2018/06/02/behaviour-policies/. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2019.]

Cowburn, A a Blow, M. (2018). *Prioritising wellbeing in schools*. Hackney: NCB. t. 2.

Cowley, S. (2014). *Getting the Buggers to Behave*. 5th ed. Llundain: Bloomsbury. t. 152.

Cyngor Sir Derbyshire. (2019). *Positive Play support programme.* Ar gael yn: https://www.derbyshire.gov.uk/education/schools/attendance-behaviour-welfare/support/positive-play/positive-play-support-programme.aspx. [Darllenwyd:19eg o Ebrill 2019.]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018). *A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales*. Caerdydd: National Assembly for Wales Commission Copyright 2. t. 20.

Department for Education (2012). Pupil Behaviour in Schools in England (DfE Research Report 218). Llundain: DfE. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184078/DFERR218.pdf [Darllenwyd: 15fed o Ebrill 2019].

Department for Education (2016). *Mental health and behaviour in schools*. Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig. t. 21.
Donaldson, G (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 28.

Eriding. (2007). *Effective practice: Health and Well-being.* Ar gael yn: http://www.eriding.net/easysiteweb/getresource.axd?assetid=308399&type=0&servicetype=1. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.

Estyn. (2016). *Darparu cymorth emosiynol i wella ymddygiad a lles disgyblion.* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/darparu-cymorth-emosiynol-i-wella-ymddygiad-lles-disgyblion?_ga=2.197633257.770461490.1555330283-1149491787.1548846604. [Darllenwyd:15fed o Ebrill 2019.]

Estyn. (2018). *Defnyddio ioga i wella safonau ymddygiad a gwella medrau canolbwyntio.* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-ioga-i-wella-safonau-ymddygiad-gwella-medrau-canolbwyntio?_ga=2.233744600.770461490.1555330283-1149491787.1548846604. [Darllenwyd:15fed o Ebrill 2019.]

Evalued. (2006). *Questionnaires.* Ar gael yn: http://www.evalued.bcu.ac.uk/tutorial/4a.htm. [Darllenwyd: 17eg o Ebrill 2019.]

Evans, G. (2016). *How schools can make a huge difference to a child's emotional health and wellbeing.* Ar gael yn: https://www.walesonline.co.uk/news/education/how-schools-can-make-huge-10973300. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.]

Family Lives. (2018). *Why play matters.* Ar gael yn: https://www.familylives.org.uk/advice/early-years-development/learning-and-play/why-play-matters/. [Darllenwyd: 23ain o Ebrill 2019.]

Gent, S. (2017). *12 Teacher Strategies to Inspire Listening, Learning and Self-Control.* Ar gael yn: https://www.additude.com/slideshows/student-behavior-problems-in-the-classroom-teacher-tips/. [Darllenwyd: 12fed o Ebrill 2019.]

Green, A. (2017). *The Advantages of an Interview Over a Questionnaire.* Ar gael yn: https://bizfluent.com/info-8220458-advantages-interview-over-questionnaire.html. [Darllenwyd: 16eg o Ebrill 2019.]

Gutman, L. Vorhaus, J. (2012). *The Impact of Pupil Behaviour and Wellbeing on Educational Outcomes*. Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig. t. 6.

Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. (2018). *New curriculum places health and wellbeing at heart of learning.* Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/48559. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.]

Hagen, A. (2018). *Teaching Children to Do Hard Things.* Ar gael yn: https://psychcentral.com/lib/teaching-children-to-do-hard-things/. [Darllenwyd: 23ain o Ebrill 2019.]

Hayden, J. Macdonald, J.. (2000). Health promotion: A new leadership role for early childhood professionals. *Australian Journal of Early Childhood*. 25 (1), t. 32.
Llywodraeth Cymru (2012). *Practical approaches to behaviour management in the classroom*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 3.

Llywodraeth Cymru (2012). *Practical approaches to behaviour management in the classroom*. Caerdydd: Crown Copyright. t. 84.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2013). *How healthy behaviour supports children's wellbeing*. Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig. t. 6.

LSA. (2010). *What are the best ways to interview children?* Ar gael yn: http://www.lse.ac.uk/media@lse/research/EUKidsOnline/BestPracticeGuide/FAQ15.aspx. [Darllenwyd: 17eg o Ebrill 2019.]

Madahar, B. (2013). *Mae cynnwys plant a phobl ifanc yn allweddol wrth wella lles mewn ysgolion.* Ar gael yn: http://www.swanseascrutiny.co.uk/2013/09/30/mae-cynnwys-plant-a-phobl-ifanc-yn-allweddol-wrth-wella-lles-mewn-ysgolion/?lang=cy. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2019.]

Matthews, D. (2018). *Are You Making Bad Behavior Worse?* Ar gael yn: https://www.psychologytoday.com/us/blog/going-beyond-intelligence/201805/are-you-making-bad-behavior-worse. [Darllenwyd: 12fed o Ebrill 2019.]

McLeod, S. (2018). *Questionnaire.* Ar gael yn: https://www.simplypsychology.org/questionnaires.html. [Darllenwyd: 17eg o Ebrill 2019.]

Menon, D. (2011). *Who Do We Blame for Bad Behavior?* Ar gael yn: https://www.psychologicalscience.org/observer/who-do-we-blame-for-bad-behavior. [Darllenwyd: 12fed o Ebrill 2019.]

Mentally Healthy Schools. (2018). *Challenging behaviours.* Ar gael yn: https://www.mentallyhealthyschools.org.uk/mental-health-needs/challenging-behaviours/. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2019.]

Moriarty, S. (2018). *Well-being for Children in the EYFS.* Ar gael yn: https://www.cache.org.uk/news-media/well-being-for-children-in-the-eyfs. [Darllenwyd: 15fed o Ebrill 2019.]

Morison, M. et al. (2000). Interviewing children for the purposes of research in primary care. *Primary Health Care Research and Development*. 1 (1), t. 113-130.

Nolan, J. (2018). *Wellbeing Essential to Learning.* Ar gael yn: https://www.isq.qld.edu.au/media-resources/wellbeing-essential-to-learning. [Darllenwyd: 11eg o Ebrill 2019.]

Oswalt, A. (2015). *Early Childhood Emotional And Social Development: Identity And Self-Esteem.* Ar gael yn: https://www.mentalhelp.net/articles/early-childhood-emotional-and-social-development-identity-and-self-esteem/. [Darllenwyd: 11eg o Ebrill 2019.]

Pagani, L.S. et al. (2003). The impact of junior kindergarten on behaviour in elementary school children. Int. J. Behav. Dev., 27: 423-427.
RAND corporation. (2018). *Child Well-Being.* Ar gael yn: https://www.rand.org/topics/child-well-being.html. [Darllenwyd: 11eg o Ebrill 2019.]

Rooks, D. (d.d). *Triggers – What Sparks Challenging Behavior.* Ar gael yn: https://disability.publichealth.gsu.edu/initiatives/education-and-schools/positive-behavior-support-articles/triggers-sparks-challenging-behavior/. [Darllenwyd: 22ain o Ebrill 2019.]

Russell-Delucas, C. (2019). *Bad Behavior in Children at School.* Ar gael yn: https://www.livestrong.com/article/149589-bad-behavior-in-children-at-school/. [Darllenwyd:19eg o Ebrill 2019.]

Stonehouse, A. (2006). *Guiding Children's Behaviour in Positive Ways*. Awstralia: NCAC. t. 1-4.

The Center for Advanced Study of Teaching and Learning (CASTL) . (2013). *STRATEGIES FOR PROMOTING POSITIVE BEHAVIORS: Cues and Visuals.* Ar gael yn: http://curry.virginia.edu/uploads/resourceLibrary/CuesAndVisuals_VKRP.pdf. [Darllenwyd: 15fed o Ebrill 2019.]

The Guardian. (2015). *Secret Teacher: we are too quick to label children who aren't perfect.* Ar gael yn: https://www.theguardian.com/teacher-network/2015/jun/20/secret-teacher-too-quick-label-children-arent-perfect-adhd-dyslexia. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2019.]

Tu, Yi-Chan. Chou, Mei-Ju. (2013). Interrelationships between Parenting Styles and Teachers Involvement: From Children's Emotion Regulation Competence Perspective. *Journal of Applied Sciences*. 13 (7), t. 1066-1072.

Victoria Government. (2017). *Understanding children's behaviour.* Ar gael yn: https://www.education.vic.gov.au/childhood/providers/regulation/Pages/understand_child_behaviour.aspx. [Darllenwyd: 23ain o Ebrill 2019.]

Winterman, T. (2018). *The Reason Children Misbehave.* Ar gael yn: https://psychcentral.com/blog/the-reason-children-misbehave/. [Darllenwyd: 24ain o Ebrill 2019.]

Woodroffe Primary School (2017). *Wellbeing and Behaviour Policy.* Awstralia: DEPARTMENT OF EMPLOYMENT, EDUCATION AND TRAINING. t. 2.

Wright, A. (2009). Every Child Matters: discourses of challenging behaviour. *Pastoral Care in Education.* 27 (4), t. 279-290.